

THOMAS, DAVID (bu farw 1780?), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Llanedi

Enw: David Thomas
Dyddiad marw: 1780?
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Yr unig hanes amdano sydd ar glawr yw'r hyn a geir yn *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, iii, 504-5, lle y dywedir mai o'r Cilgwyn yng Ngheredigion y tarddai, ei fod yn byw yn Ffos-yr-efail, Llandeilo Fach, ei fod yn ŵr cefnog, ac iddo gael ei urddo tua 1739 yn weinidog Llanedi. Er na wellir mo'i enw (am ryw reswm) yn rhestr *W. D. Jeremy* (copi yn *NLW MS 362A*), gellir pigo ambell friwsionyn amdano o lawysgrifau. Y mae'n eglur oddi wrth gyfeiriadau sgornllyd *Edmund Jones* (dyddlyfr 1773) ato ei fod yn cyfeillachu ag Ariaid - awgrymir hefyd nad oedd yn ddirwestwr. Cyd-dery geiriau *Edmund Jones*, 'old David Thomas,' â'r ffaith i *Evan Davies* gael ei urddo (3 Awst 1775) yno - yn gyd-weinidog, meddai *Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru* - a Thomas yn bresennol; ond yn unig lyfr eglwys Llanedi sydd ar gael (yn Somerset House; yn 1745 y dechrau), gelwir *Davies* yn 'minister,' ac yn ei ofal ef yr oedd prydles y tŷ-cwrdd. Dan 28 Mawrth 1778 y mae gan y llyfr eglwys gofnod fod 'the major part of the congregation' yn ymrwymo i dalu £5 yn flynyddol am ei oes i 'The Rev. David Thomas, our old Pastor,' ond gyda hynny restr o gymwynaswyr yr eglwys, yn cynnwys '£100 given by the Rev. Mr. David Thomas, Pastor of this Congregation' - tybed mai benthyg, dan log blyneddol, ond i'w faddau ar farw Thomas ? Ymhlith papurau *Thomas Morgan* 'Henllan y mae rhestr (*NLW MS 5453C*) o weinidogion yng Nghymru a fu farw ar ôl 1760. Yr olaf ond un ohonynt yw 'Mr. David Thomas of Llanedy'; ni roddir dyddiad, fel y digwydd, ond rhestr yn nhrefn amser yw hi, ac y mae enw Thomas rhwng 1779 a 1781.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). THOMAS, DAVID (bu farw 1780?), gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Llanedi. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-THOM-DAV-1780>

CC-BY-SA

Preifatrwydd a Chwcis

Hawlfraint

Y Prosiect

Cymorth

Cysylltu

LGC

NLW

LLYFRGELL

THE NATION



Nodiwr gan:
Llywodraeth Cymru
Sponsored by:
Welsh Government